# PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Y Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Ball, C.A. Cave, A.M. Collins, C.M. Cowpe, R. Fisher, E.J. Goodjohn, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 176 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## 177 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd I.R. Buckley.

## 178 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

## 179 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 180 CAU CYFRIFON 2023/23 (CGC) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg yr adroddiad a oedd yn hysbysu'r Pwyllgor am sefyllfa ariannol amodol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ar ôl cwblhau'r cyfrifon.

Dechreuodd y Swyddog ei gyflwyniad drwy ddweud bod y cyfrifon refeniw drafft wedi'u cwblhau fel yr oeddent ar 30 Mehefin, a'u bod bellach gydag archwilwyr

allanol, felly roedd yr archwiliad wedi dechrau, ac roedd yr archwilwyr yn gweithio'n unol ag amserlen a oedd yn cynnwys haf 2023 gan gwblhau ym mis Tachwedd.

Fel yr adroddwyd drwy gydol y flwyddyn heriol flaenorol, roedd nifer o bwysau'n dod i'r amlwg, er enghraifft y pwysau posibl yn gysylltiedig â'r dyfarniad cyflog ychwanegol a ddyfarnwyd, ond roedd rhan helaeth o hyn wedi'i liniaru ar draws y Cyngor drwy swyddi gweigion.

Rhoddodd y Swyddog wedyn wybod i'r Pwyllgor am bwysau a gafwyd yn y gorffennol a oedd yn ymwneud yn benodol â chylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodwyd ym mharagraffau 2.19 i 2.23 ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, a 2.27 ar gyfer y Gwasanaethau Hamdden yn yr adroddiad.

Yn benodol, cyfeiriodd y Swyddog at y ffaith bod amrywiant ffafriol o £1,140k yng Nghyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl trosglwyddo £1,509k i'r cronfeydd wrth gefn. Roedd addasiad cyfrifo untro o £4.164m wedi camlunio sefyllfa'r alldro yn 2022/23 i roi adlewyrchiad cywirach o gasgliad y Cyngor o incwm gohiriedig yn gysylltiedig â threfniadau gofal. Ar ôl caniatáu hefyd ar gyfer cost ychwanegol y dyfarniad cyflog yn 2022/23, cynnydd a roddwyd i Ddarparwyr Gofal Cymunedol ym mis Chwefror 2023 a symiau untro o gyllid a dderbyniwyd yn y Gwasanaethau Plant, byddai'r sefyllfa sylfaenol wedi bod yn nes at orwariant net o oddeutu £1m.

I gloi, dywedodd y Swyddog, wrth baratoi am gyllideb 2023/24, fod y Cyngor wedi ailddyrannu swm gweddol sylweddol o gronfeydd ar draws y Cyngor (fel y dangoswyd ym mharagraff 7.8 yr adroddiad), er iddo gymryd swm sylweddol allan o gronfeydd y Gwasanaethau Cymdeithasol i alluogi'r Cyngor i ychwanegu at rai o'r potiau ar gyfer pwysau ynni a chyflogau. Roedd hyn yn golygu bod ychydig dros £10m yn weddill o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gyllido rhaglen gyllidebol y Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd i warchod rhag peth o'r anwadalrwydd hwnnw a welwyd yn flaenorol yng nghyllidebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn dilyn sylw gan yr Is-Gadeirydd yn diolch i'r Swyddogion am lunio'r adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigir ynddo.

(2) NODI dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ar yr alldro a'r mesurau ariannol a gymerwyd.

(2) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ddyrannu gwarged 2022/23 i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau sy'n cefnogi blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan y Cyngor.

181 CAU CYFRIFON CYFALAF 2022/23 (CGC) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion cau’r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2023.

Roedd manylion fesul cynllun, a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, wedi'u dangos yn Atodiad 1 yr adroddiad. Roedd Atodiad 2 yn rhoi crynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth, o gymeradwyaeth yn y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 hyd 31 Mawrth 2023, gan gynnwys unrhyw newidiadau a geisiwyd yn yr adroddiad. Y llithriad ar gyfer y pwyllgor oedd £705k, ac roedd Atodiad 3 yn cynnwys manylion y llithriant a'r
cynlluniau yn sgil hynny.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg fod swyddogion cyllid wedi ceisio amlygu, drwy adroddiadau monitro a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ariannol, rhai o'r cyflawniadau o fewn y Rhaglen Gyfalaf yn ystod y flwyddyn. I'r perwyl hwnnw, roedd manylion prosiect Clos Carys wedi'u cynnwys ym mharagraff 2.10 yr adroddiad. Roedd Clos Carys wedi'i gynnwys yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £428k a chyfanswm o £436k o wariant terfynol. Byngalo hygyrch ydoedd a oedd yn cynnwys technoleg glyfar i ddarparu cartref i ddau unigolyn allu byw mor annibynnol ag sy'n bosibl, ynghyd ag anecs hunangynhaliol i unigolyn ennill sgiliau i'w helpu i symud ymlaen i fyw'n annibynnol.

Yn nhermau'r cynlluniau cymeradwy a addaswyd ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr oedd cyllideb addasedig o £1.1m gyda gwariant o £767k a llithriant o £331k. Roedd hyn yn gysylltiedig ag Ystafell Beiriannau Tŷ Dewi Sant, Datblygu TG, Lifftiau Cyfeillgar â Dementia ICF a chynlluniau i uwchraddio'r Cyntedd ac Ystafell Olchi ICF.

Roedd lefelau isel o lithriant hefyd o fewn y Gwasanaethau Hamdden, a'r cynllun mwyaf nodedig oedd cynllun gwerth £160k Pafiliwn Belle Vue Penarth, ond roedd y cynllun wedi'i gwblhau ers hynny.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, nododd yr Is-Gadeirydd fod yr adroddiad yn gymhleth a thynnu sylw at y ffaith bod gwariant ar draws y Gyfarwyddiaeth a oedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn anwadal ac yn dibynnu ar y galw am wasanaethau. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd rhagweld beth fyddai'r sefyllfa arianno, felly canmolwyd y Swyddogion Cyllid am eu gwaith.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach felly penderfynodd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

(2) NODI'r cyllidebau cynllun ychwanegol, fel y'u nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(3) NODI'r sefyllfa gryno o'r newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf fesul cyfarwyddiaeth o'u cymeradwyo gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 i 31 Mawrth 2023, fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

(4) NODI'r Pwerau Argyfwng a gymeradwywyd mewn perthynas â'r llithriad, fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ar y sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn am y flwyddyn ariannol 2022/23.

(2) Hysbysu'r Pwyllgor am y cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd at y Rhaglen Gymeradwy ar gyfer 2022/23.

(3) Hysbysu'r Pwyllgor am y newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf Gymeradwy a osodwyd ar 7 Mawrth 2022.

(4) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y llithriad a gymeradwywyd yn y Pwerau Argyfwng yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.

182 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022-2023 – FERSIWN HER (CGC) –

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Fersiwn Her o'i adroddiad a oedd yn rhoi cyfle i Aelodau a rhanddeiliaid wneud sylwadau a chyfrannu at ddrafft terfynol yn y dyfodol a fyddai'n cael ei ystyried gan y Cabinet. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor yn rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol, a byddai Fersiwn Her yr adroddiad hefyd yn cael ei rhannu â phartneriaid y Cyngor er mwyn ymgynghori arni, a hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Roedd yn adroddiad pwysig i bobl Bro Morgannwg, aelodau'r Cyngor a'i bartneriaid, boed statudol ac mewn sectorau eraill. Roedd yn amlinellu'r cyd-destun yr oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd, ac yn manylu ar flaenoriaethau a gynigiwyd ar gyfer gwella. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno barn y Cyfarwyddwr a rheolwyr eraill y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oedd yn rhan o bolisi'r Cyngor ar hyn o bryd, ond byddai'n cael ei ddefnyddio i lywio polisïau'r Cyngor yn y dyfodol gyda chytundeb y Cabinet.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod fformat yr adroddiad wedi'i nodi fel gofyniad blynyddol gan Lywodraeth Cymru drwy reoliad o 2017/18. Roedd y Gyfarwyddiaeth wedi gwneud Adroddiad y Cyfarwyddwr yn fwy cyson â mecanweithiau Cynllunio Corfforaethol a Gwasanaethau'r Cyngor er mwyn lleihau achosion o ail-wneud gwaith.

Aeth y Cyfarwyddwr â'r Pwyllgor wedyn drwy'r Adroddiad Blynyddol, fel yr oedd wedi'i atodi i'r adroddiad eglurhaol, gan amlinellu'r prif uchafbwyntiau o ran perfformiad (tudalennau 2-5) a'r meysydd gwella a gynigiwyd yn sgil hynny ar draws y tri maes gwasanaeth: Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau

Oedolion, a Gwasanaethau Rheoli Adnoddau a Diogelu (tudalennau 6 a 7). Rhoddodd y Cyfarwyddwr hefyd grynodeb o'r manylion cynhwysfawr a ddarparwyd yn yr adroddiad ynghylch sut roedd y Cyngor yn siapio'i wasanaethau (tudalennau 8-18), yn ogystal â chrynodeb o'r Cwynion a'r Ganmoliaeth a gafwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd yn sgil hynny (tudalennau 19-22).

Tynnodd y Cyfarwyddwr hefyd sylw'r Pwyllgor at yr wybodaeth a ddarparwyd ar ddiwedd yr adroddiad ynghylch hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a Mynediad i Wasanaethau ar dudalennau 42 a 43 yr adroddiad.

I gloi, rhannodd y Cyfarwyddwr yr 14 o Flaenoriaethau a nodwyd gan y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 23/24 â'r Pwyllgor, fel y'u nodwyd ar dudalennau 45 a 46 yr Adroddiad Blynyddol. Dywedodd fod y Gyfarwyddiaeth wedi gwneud cynnydd da a'i bod yn wynebu heriau pellach yn y dyfodol, ond ei fod yn gobeithio fod yr Adroddiad Her yn dangos yn glir pa heriau y gellid eu lliniaru drwy gyflawni'r 14 o feysydd â blaenoriaeth a nodwyd.

Ar ôl cyflwyniad y Swyddog, diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr am roi adroddiad manwl a oedd yn llawn gwybodaeth, a dywedodd fod y Pwyllgor yn llwyr ymwybodol o ymdrechion sylweddol y Gyfarwyddiaeth i ymdrin â heriau o fewn meysydd gwasanaeth.

Yna cafwyd cwestiynau dilynol gan y Pwyllgor. Mewn ymateb, ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ochr yn ochr â'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, yn ogystal â'r Pennaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu y cyngor canlynol.

- Mewn perthynas â dangosydd perfformiad y Cyngor ar gyfer nifer yr ymweliadau â chartrefi ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn, nid oedd hwn ar 100%, ac roedd hynny hefyd yn adlewyrchu'r sefyllfa genedlaethol. Byddai'n well gan y Gyfarwyddiaeth weld y ffigur canrannol yn uwch nag a oedd ar hyn o bryd, ac roedd hyn felly wedi'i nodi fel maes i'w wella yn yr Adroddiad Blynyddol. Roedd ymweliadau â phlant ar y gofrestr yn cael eu monitro drwy'r broses Cynadleddau Amddiffyn Plant yn unigol fesul plentyn neu grŵp o frodyr/chwiorydd, a hefyd yn gyffredinol drwy ddangosydd perfformiad, ac roedd disgwyl i Gadeiryddion y Cynadleddau sylwi ar bresenoldeb mewn modd amserol. Nid oedd y ffigur ar 100%, ond roedd hyn bob amser yn ddibynnol ar ffactorau allanol a allai olygu nad oedd modd bodloni terfynau amser. Roedd Cynllun Amddiffyn Plant yn cael ei weithredu'n rhan o grŵp amlasiantaeth, a sicrwydd allweddol y Cyngor oedd cyd-gyflawni ei gyfrifoldebau, rhannu risgiau a nodi pryderon er mwyn diogelu'r plant dan sylw. Cydnabu'r swyddogion bwynt y Cynghorydd Cowpe, sef bod gwahaniaeth rhwng peidio cael digon o staff gwaith cymdeithasol i gynnal yr holl ymweliadau ar amser, a ffactorau eraill fel ceisio ymweld ond peidio gallu cael mynediad i'r cartref. Cydnabu'r swyddogion hefyd ail bwynt y Cynghorydd Cowpe, sef y byddai monitro'r dangosydd perfformiad yn rheolaidd yn galluogi swyddogion i fod yn ymwybodol tua diwedd pob chwarter a oedd y ganran ar y trywydd iawn ac yn dangos cynnydd da, ac os ddim, beth oedd y rhesymau ymarferol wrth wraidd hynny. Roedd y dangosydd perfformiad yn hynod o bwysig i'r Cyngor, ac roedd yn dymuno ei

wella hyd yr eithaf, gan ystyried yr amrywiaeth o resymau posib pam na chyrhaeddwyd y 100%. Roedd gwaith datblygu ar y gweill ar hyn o bryd i adolygu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad er mwyn darparu rhagor o wybodaeth amser reol i ymarferwyr a rheolwyr allweddol i'w chymharu yn erbyn dangosyddion perfformiad.

- Cydnabuwyd hefyd, o fewn yr Adroddiad Blynyddol, fod mwyafrif y cwynion a gafwyd yn ymwneud â'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Roedd hyn oherwydd natur statudol y gwasanaeth a'r elfennau amddiffyn plant, felly roedd y gwasanaeth yn fwy tebygol o dderbyn cwynion. Roedd y cwynion a gafwyd yn gysylltiedig â'r Gwasanaethau Oedolion yn fwy tebygol o ymwneud â cheisiadau am gymorth/wasanaeth ac oedi'n gysylltiedig â hynny. Nododd swyddogion fod cwynion yn bwysig i roi llais i rai a dderbyniai wasanaethau Cyngor, ac roeddent yn cael eu defnyddio mewn modd cadarnhaol fel ffynhonnell i ddysgu lle'r oedd angen.
- O ran salwch ymhlith y staff, roedd absenoldeb salwch yn gysylltiedig â Covid-19 yn dal i fod yn broblem i'r Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, ond roedd hyn yn digwydd mewn tonnau. Roedd amseroedd ynysu yn gysylltiedig â Covid-19 hefyd wedi lleihau, gan olygu bod salwch cysylltiedig yn haws i'w reoli nag o'r blaen. Mewn gwirionedd, roedd a wnelo'r categori uchaf o salwch ymhlith y staff â straen gartref, ac roedd ansicrwydd ynghylch a oedd hyn yn gysylltiedig ag ôl-effeithiau pandemig Covid-19 neu broblemau eraill. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o hanesion salwch hirdymor y staff yn aml yn ymwneud am amgylchiadau trasig iawn. Roedd hi'n ddiddorol nodi ei bod hi wedi bod yn haws ymdopi â straen cysylltiedig â'r gwaith yn y blynyddoedd diwethaf, ond mai dyma fyddai'r meini prawf uchaf amryw o flynyddoedd yn ôl.
- Mewn ymateb i bryder yr Is-Gadeirydd ynghylch plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cael tri neu fwy o leoliadau mewn cartref o fewn blwyddyn, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ei bod hi'n aml yn amhosib osgoi symud rhwng gwahanol leoliadau, a bod cyfyngu ar nifer y symudiadau rhwng lleoliadau wedi bod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Roedd y Cyngor wedi gwneud yn dda yn y blynyddoedd diwethaf o ran symud lleoliadau, er gwaethaf y cyd-destun cynyddol heriol. Ymhelaethodd yr Is-gadeirydd hefyd ar ei bwynt, gan ddweud ei fod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod yn rhaid canfod lleoliadau brys yn aml cyn y bo modd lleoli plentyn yn ei gartref hirdymor terfynol.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach felly penderfynodd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r adroddiad eglurhaol a chynnwys Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-2023 – Fersiwn Her.

(2) NODI'r blaenoriaethau gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y'u hamlinellir yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2022-2023 – Fersiwn Her.

(3) CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-2023 – Fersiwn Her, fel y'i cyflwynwyd.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried yr adroddiad eglurhaol a'r adroddiad atodol i roi cyfle i Aelodau Etholedig gyfrannu at y broses herio ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2022-2023.

183 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2022/23 (CGC) –

Roedd yr adroddiad perfformiad yn cyflwyno cynnydd y Cyngor yn Chwarter 4 (Ch4) (1 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2023) tuag at gyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (2022/23) fel roeddent wedi'u halinio ag Amcanion ei Gynllun Llesiant Corfforaethol.

Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o bedwar Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn Ch4 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma o ran cyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 22/23.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau cynlluniedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol, cafodd 95% ohonynt (106 o 112) statws perfformiad Gwyrdd, a'r 5% (6) olaf statws Coch. O'r 10 o fesuriadau a adroddwyd, rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i 80% (8), statws Ambr i 10% (1) a statws Coch i 10% (1).

Er hwylustod, roedd eithriadau o ran perfformiad a oedd yn gyson â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu yn amlygu statws cyfredol camau perfformiad Coch a nodwyd mewn chwarteri blaenorol, er mwyn dangos cyfeiriad y daith ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai hyn yn galluogi Aelodau i fesur yn gyflym a oedd camau unioni a gynigiwyd wedi'u gweithredu yn ystod y flwyddyn i fwrw ymlaen â'r camau dan sylw. Roedd y dull hwn o adrodd ar eithriadau'n adlewyrchu'r newidiadau a geisiwyd gan Aelodau Etholedig ar gyfer monitro perfformiad y Cynllun Cyflawni Blynyddol.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod camau wedi'u nodi yn yr adroddiad nad oeddent wedi'u cwblhau eto oherwydd heriau o fewn y gwasanaeth a graddfeydd amser adroddiadau chwarterol. Fodd bynnag, byddai pwyntiau a oedd yn dal i fod yn berthnasol yn cael eu hadolygu a'u dwyn ymlaen i'r adroddiad monitro perfformiad nesaf.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn rhoi darlun clir o'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau. Ategodd yr Is-gadeirydd sylwadau'r Cadeirydd a chanmol swyddogion am gyflwyno adroddiad ardderchog a ddangosai'n glir beth oedd y gwendidau a'r camau unioni a oedd ar waith i'w datrys.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach felly penderfynodd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canlyniadau perfformiad Chwarter 4 a’r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23, sy’n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â’r gofyniad i fodloni ei ofynion perfformiad fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod wedi gwneud y mwyaf o’i gyfraniad at gyflawni’r nodau llesiant ar gyfer Cymru.